



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Troseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol

Rhagfyr 2016



Troseddau gyrru a chosbau sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk

ISBN Print 9781474138635
ISBN Gwe 9781474138642

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 0112201687 12/16

Argraffwyd ar bapur ag o leiaf 75% o'i gynnwys yn ffibrau wedi'u hailgylchu.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- I:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at bawb sydd â diddordeb mewn deddfwriaeth traffig ffyrdd sy'n ymwneud â throseddau achosi marwolaeth neu anaf difrifol.
- Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr digwyddiadau traffig ffyrdd; cyrff anllywodraethol sydd â diddordeb mewn diogelwch ffyrdd a chefnogi dioddefwyr digwyddiadau traffig ffyrdd; yr heddlu; y farnwriaeth ac academyddion.
- Hyd:** O 5 Rhagfyr 2016 hyd 1 Chwefror 2017.
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur ar fformat gwahanol) i:** Driving Consultation
Post Point 4.12
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 07580701239
E-bost: drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Ateber erbyn 1 Chwefror 2017 i
Driving Consultation
Post Point 4.12
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
E-bost: drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk
- Papur ymateb:** Bwriedir cyhoeddi ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn erbyn mis Mai 2017 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Rhagair	3
Rhagarweiniad	5
Gyrru diofal a gyrru peryglus	7
Y teimlad bod bwllch yn y gyfraith	10
Cosbau uchaf	11
Gwaharddiadau	15
Materion eraill	17
Asesiad o Effaith a Datganiad Cydraddoldeb	18
Holiadur	19
Amdanoch chi	20
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	21
Egwyddorion ymgynghori	23
Atodiad A – Tabl o droseddau traffig ffyrdd a chosbau	24

Rhagair


Er bod hanes diogelwch ffyrdd y Deyrnas Unedig ymysg y gorau yn y byd, mae marwolaethau neu anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn cael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd; nid yw dedfryd y llys byth yn gallu gwneud iawn am golli un o'u hanwyliaid. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i sicrhau bod niferoedd marwolaethau neu anafiadau difrifol yn parhau i ostwng ac, os ydynt wedi'u hachosi gan ymddygiad troseddol, bod yr offer cywir ar gael i ddarparu cyfiawnder.

Yn ogystal â nifer o fesurau diogelwch ffyrdd a cheir, mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau arwyddocaol i gynyddu gallu'r gyfraith droseddol i ymdrin yn briodol â gyrru mewn modd yr ystyriar ei fod yn droseddol. Yn 2015, cynyddwyd uchafswm y gosb am achosi marwolaeth wrth yrru dan waharddiad o 2 flynedd o garchar i 10 mlynedd o garchar, a chrëwyd trosedd newydd o achosi anaf difrifol wrth yrru dan waharddiad, â chosb o hyd at 4 mlynedd o garchar. Hefyd, daeth gofyniad statudol newydd i rym sy'n ymestyn gwaharddiad rhag gyrru i ystyried unrhyw amser a dreuliwyd yn y ddalfa.

Yn ogystal, ar ôl argymhellion a wnaethpwyd ym mis Chwefror 2015 mewn arolygiad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi gydag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar ymchwilio i ddigwyddiadau traffig ffyrdd angheuol ac erlyn troseddau sy'n deillio ohonynt, mae'r heddlu'n gwella eu dulliau ymchwilio i droseddau gyrru difrifol a sut yr erlynir yr achosion hynny drwy'r llysoedd. Hefyd, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi datblygu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer digwyddiadau traffig ffyrdd angheuol i erlynwyr arbenigol ac uwch reolwyr cyfreithiol, ynghyd â phrotocol ar ymchwilio i wrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol ac erlyniadau cysylltiedig. Bydd y rhain yn sicrhau bod ganddynt erlynwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig a dulliau cyson o erlyn mewn cysylltiad â digwyddiadau traffig ffyrdd angheuol, sy'n rhoi blaenoriaeth i ystyried teuluoedd mewn profedigaeth drwy gydol ymchwiliad ac unrhyw broses llys a gynhelir o ganlyniad iddo.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, fodd bynnag, bod y cyhoedd yn dal i bryderu ynglŷn â sut y mae'r gyfraith yn ymdrin â throseddwyr sy'n lladd pobl eraill ar y ffordd, neu'n eu hanafu'n ddifrifol. Felly, maent wedi cynnal adolygiad o droseddau gyrru, gan ganolbwyntio ar y troseddau difrifol sy'n gallu arwain at farwolaeth neu anaf difrifol. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau diogelwch ffyrdd a chyfiawnder troseddol ac yn benodol, i deuluoedd dioddefwyr troseddau traffig ffyrdd a rannodd eu profiadau personol, eu harbenigedd a'u pryderon am y gyfraith bresennol a fu'n sail i'r adolygiad a'r cynigion a wnaethpwyd yn yr ymgynghoriad hwn.

Y rhan fwyaf o'r amser, mae'r mwyafrif helaeth o yrwyr yn gyrru'n dda. Fodd bynnag, weithiau mae camgymeriad neu ddiffyg sylw, hyd yn oed, yn gallu achosi damwain drychinebus. Fel egwyddor gyffredinol, mae angen i'r gyfraith droseddol ystyried nid yn unig y niwed a achoswyd, ond hefyd faint o fai sydd ar y troseddwr, a rhaid i ddedfrydau fod yn fater i'r barnwr eu pennu mewn achosion unigol, yn seiliedig ar ffeithiau llawn yr achos a'r troseddwr sydd o'i flaen. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i sicrhau bod y llysoedd yn gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol sy'n adlewyrchu difrifoldeb y troseddu ac euogrwydd y troseddwr. Bwriad y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yw cynnig ymateb cymesur i'r troseddau hyn.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sam Gyimah'.

Sam Gyimah AS
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Rhagarweiniad

Cefndir

1. Er bod nifer y cerbydau modur wedi cynyddu'n gyflym, mae nifer y marwolaethau yr adroddir amdanynt ar y ffyrdd wedi bod yn gostwng ers canol yr 1960au. Mae'r duedd hirdymor hon o leihau nifer y marwolaethau ar y ffyrdd wedi digwydd oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys gwell ffyrdd, ceir mwy diogel a gwell gofal meddygol. Mae gan y gyfraith droseddol ran bwysig i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod y gyrrwyr hynny sy'n eu peryglu eu hunain a defnyddwyr ffyrdd eraill yn cael eu cosbi'n briodol.
2. Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder adolygiad o droseddau gyrru a chosbau. Fel rhan o'r adolygiad mewnol hwnnw, ystyriodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ystod o bryderon ynglŷn â throseddau gyrru a chosbau a godwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan ymgyrchwyr, dioddefwyr y troseddau hyn, aelodau'r cyhoedd a Seneddwyr.
3. Mae dedfrydu am droseddau traffig ffyrdd difrifol yn cyflwyno heriau penodol, ac mae pobl weithiau'n teimlo ei fod yn rhy drugarog. Weithiau, gall gyrrwr achosi damwain wirioneddol ddifrifol heb gyflawni trosedd drwg. Mae'r canlyniadau'n gallu bod yn gwbl anghymesur â beusrwydd y troseddwr. Mae camgymeriad cymharol fach yn gallu achosi canlyniadau trasig iawn, ac mae ymddygiad cwbl fyrbwyll ar y ffordd, drwy lwc, yn gallu digwydd heb achosi dim niwed o gwbl.
4. Felly, bwriad y gyfraith yw cosbi'r bobl hynny sy'n achosi marwolaeth neu anaf ar y ffordd mewn modd sy'n briodol i'r bai sy'n perthyn i'r gyrrwr. Mae angen i droseddau a chosbau fod yn gymesur â difrifoldeb a beusrwydd yr ymddygiad sy'n eu hachosi. Ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau difrifol, mae angen profi bwriad troseddol ar ran y diffynnydd. Nid yw'r baich prawf hwn wedi'i gynnwys mewn rhai troseddau traffig ffyrdd. Yn lle hynny, safon y gyrru sy'n feius. Er ein bod yn aml yn meddwl am ddeddfwriaeth traffig ffyrdd fel maes cyfraith ar wahân, mae'n rhan o'r gyfraith droseddol a rhaid i ddifrifoldeb y cosbau sydd ar gael fod yn gyson â'r cosbau sydd ar gael ym meysydd eraill cyfraith droseddol, yn ogystal ag ystyried difrifoldeb cymharol y gwahanol droseddau traffig.

Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynglŷn ag a ddylid cynyddu'r cosbau uchaf sydd ar gael ar hyn o bryd i'r llysoedd ar gyfer troseddau presennol achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau o 14 mlynedd o garchar i oes. Mae hefyd yn gofyn am farn ynglŷn ag a oes bwlch yn y gyfraith o ran gyrru diotal sy'n arwain at anaf difrifol.
6. Yn ogystal â cheisio barn am y troseddau a'r cosbau am yrru sy'n achosi marwolaeth neu anaf difrifol, mae'r papur hwn hefyd yn trafod y gwahaniaeth rhwng gyrru diotal a gyrru peryglus, a lefel y cosbau uchaf a sut i'w gosod.

7. **Nid yw'n** cynnwys troseddau gyrru na throseddau rheoleiddio eraill megis goryrru, pennu terfynau yfed a gyrru, troseddau sylfaenol gyrru diofal neu beryglus a defnyddio ffôn symudol wrth yrru. Fodd bynnag, mae rhai o'r ymddygiadau hyn, megis defnyddio dyfais â llaw wrth yrru, yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn os ydynt yn ffactor mewn gyrru sy'n arwain at farwolaeth neu anaf difrifol.
8. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i gynyddu'r cosbau am ddefnyddio ffôn symudol â llaw wrth yrru o 3 i 6 phwynt cosb, ac o £100 i £200 os rhoddir hysbysiad cosb benodedig i yrrwr. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch PWYLLWCH! ar adeg cyflwyno'r cosbau uwch hyn i sicrhau bod gyrrwyr yn gwybod am y newidiadau ac i godi ymwybyddiaeth. Mae angen i yrwyr ddeall bod peryglu bywydau yn annerbyniol.
9. Hefyd, **nid yw'r** papur hwn yn ymwneud â phenderfyniadau i gyhuddo, sy'n fater i Wasanaeth Erllyn y Goron, na'r gefnogaeth a ddarperir i ddiodefwyr. Ym mis Tachwedd 2015, diwygiodd y Llywodraeth y Cod Dioddefwyr i ehangu'r diffiniad o 'ddioddefwr' fel bod gan ddiodefwyr unrhyw drosedd, gan gynnwys troseddau gyrru, hawl i gael gwasanaethau yn unol â'r Cod. Mae'r hawl hon hefyd yn berthnasol i berthnasau agos sydd mewn profedigaeth oherwydd trosedd. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud i gynyddu hawliau diodefwyr eto. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi eu cynlluniau maes o law.
10. Am resymau'n ymwneud â sicrhau triniaeth a dulliau cyson rhwng y rhwydweithiau ffyrdd mewn gwahanol rannau o'r DU, mae materion sy'n ymwneud â throseddau traffig ffyrdd a chosbau'n faterion a gedwir gan fwyaf, h.y. y Senedd sy'n gwneud cyfreithiau sy'n ymwneud â throseddau traffig ffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddai unrhyw newidiadau i droseddau traffig ffyrdd a chosbau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol yn yr Alban hefyd.
11. Mae Asesiad o Effaith a Datganiad Cydraddoldeb wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae croeso cynnes i sylwadau am yr Asesiad o Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb. Rydym wedi gofyn cwestiwn am gydraddoldeb ar ddiwedd y papur hwn.

Gyrru diofal a gyrru peryglus

Y gwahaniaeth rhwng gyrru diofal a gyrru peryglus

12. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y gwahaniaeth rhwng gyrru diofal a gyrru peryglus fel y mae wedi'i amlinellu yn y gyfraith yn destun llawer o graffu a dadlau, ond maent yn dal i fod yn argyhoeddedig ei fod yn gywir.
13. Yn unol â'r gyfraith bresennol, nid cyflwr meddyliol neu fwriadau'r gyrrwr sy'n pennu beth yw gyrru diofal neu beryglus – mae'n aml yn anodd canfod hynny yng nghyd-destun gyrru – ond natur y gyrru. Mae'r gyfraith yn amlinellu prawf gwrthrychol sydd wedi'i lunio i gymharu gyrru'r diffynnydd dan amgylchiadau penodol yr achos â'r hyn a fyddai i'w ddisgwyl gan yrrwr dychmygol gofalus a chymwys.
14. Yn y bôn, mae'r gwahaniaeth rhwng gyrru diofal a gyrru peryglus yn fater o faint yn waeth ydyw na gyrru'r gyrrwr gofalus a chymwys. Os yw'r gyrru'n *is* na'r safon honno mae'n debygol o fod yn yrru diofal ac os yw'r gyrru'n *llawer is* na'r safon honno mae'n debygol o gael ei ystyried yn beryglus. Os nad yw'r gyrru'n is na safon y gyrrwr cymwys a gofalus, ni fydd y troseddau hyn wedi'u cyflawni.
15. Mae natur y prawf gwrthrychol hwn yn gallu ei gwneud yn anodd i ddiodefwyr a'r cyhoedd ddeall sut y mae'r heddlu ac erlynwyr yn penderfynu a ddylid erlyn y gyrru mewn achos penodol ac os dylid, a yw'n yrru diofal ynteu'n yrru peryglus; neu ddeall y penderfyniadau ynglŷn ag a gafodd trosedd ei gyflawni a sut y pennir y ddeddfryd.
16. Mae'r hyn sy'n gyfystyr â **gyrru diofal** wedi'i amlinellu yn Adran 3ZA Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ac mae'n darparu y dylid ystyried bod unigolyn yn gyrru heb ofal a sylw dyledus os yw safon y gyrru'n is nag a ddisgwylid gan yrrwr cymwys a gofalus.
17. Mae'r hyn sy'n gyfystyr â **gyrru peryglus** wedi'i amlinellu yn Adran 2A(1) Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ac mae'n darparu y dylid ystyried bod unigolyn yn gyrru'n beryglus os yw safon y gyrru'n llawer is nag a ddisgwylid gan yrrwr cymwys a gofalus, ac y byddai'n amlwg i yrrwr cymwys a gofalus y byddai gyrru yn y modd hwnnw'n beryglus.
18. Mae'r diffiniadau hyn hefyd yn berthnasol i droseddau gyrru diofal neu beryglus nad ydynt yn achosi marwolaeth, yn ogystal â'r troseddau sy'n destun yr ymgynghoriad hwn. Nid yw'n bosibl amlinellu beth allai fod yn gyfystyr â gyrru peryglus neu ddiofal ym mhob achos ond mewn achosion lle penderfynwyd bod **gyrru peryglus** yn digwydd, dyma rai mathau o ymddygiad sy'n gyffredin: rasio ar strydoedd; gyrru'n rhy gyflym ac yn ymosodol am gyfnodau hir; anwybyddu arwyddion ffyrdd neu rybuddion gan deithwyr; goddiweddyd yn beryglus; gyrru dan ddylanwad diod neu gyffuriau a gyrru gan wybod bod nam peryglus ar y cerbyd neu ei fod yn cludo llwyth peryglus.
19. At ddibenion dangosol, mewn achosion lle penderfynwyd bod **gyrru diofal** yn digwydd, dyma rai mathau o ymddygiad sy'n gyffredin: goddiweddyd ar y tu mewn; gyrru'n rhy agos at gerbyd arall; troi i lwybr cerbyd arall a diffyg sylw gan y gyrrwr yn ddiangen oherwydd ei fod yn gweithredu rheolyddion cerddoriaeth, yn tanio sigarét ac ati.
20. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr awgrym y gallai creu un trosedd 'gyrru gwael' i ddiddymu'r gwahaniaeth rhwng gyrru diofal a gyrru peryglus, ond gadw'r prawf

gwrthrychol, gynyddu nifer yr euogfarnau ac arwain at ddedfrydau hwy yn enwedig i bobl a fyddai wedi cael euogfarn o yrru diofal sy'n agos at fod yn yrru peryglus.

21. Mae defnyddio un safon ar gyfer gyrru'n peri anawsterau, yn enwedig mewn perthynas â'r troseddau sy'n achosi anaf difrifol neu farwolaeth. Byddai'n rhaid i'r gosb uchaf am y trosedd fod yn briodol i'r ymddygiad mwyaf difrifol y gellid ei ddychmygu dan y trosedd, sy'n golygu cosb uchaf fawr. Y risg yw y gallai rheithgorau fod yn llai bodlon i euogfarnu gyrrwr am drosedd sy'n cynnwys gyrru llai difrifol (yr hyn sy'n yrru diofal ar hyn o bryd) pe baent yn credu bod y gosb uchaf y gellid ei rhoi yn anghymesur.
22. Hefyd, ni fyddai'r dull hwn o reidrwydd yn arwain at newid ymddygiad dedfrydu. Wrth ddedfrydu, rhaid i farnwr ystyried difrifoldeb y trosedd gan ystyried euogrwydd y troseddwr a'r niwed a achoswyd er mwyn rhoi'r gosb sy'n briodol i'r trosedd, a byddai hyn yn dal i ddigwydd pe bai trosedd newydd 'gyrru gwael' wedi'i greu. Ni fyddai'r ffaith nad oes gwahaniaeth rhwng y troseddau'n newid y ffordd y gwneir penderfyniad am y ddedfryd briodol. Felly, nid yw'r Llywodraeth wedi'u perswadio bod rheswm i newid hyn.

Deddfu i ystyried bod rhai mathau o ymddygiad yn yrru peryglus neu ddiotal

23. Mae rhai pryderon hefyd wedi codi lle nad yw gyrrwr yn bodloni'r prawf ar gyfer gyrru'n ddiotal neu'n beryglus ond ei fod yn gyrru dros y terfyn yfed a gyrru neu dros y terfyn cyflymder. Mae rhai pobl wedi awgrymu, yn yr achosion hyn, y dylid ystyried bod y gyrrwr yn gyrru naill ai'n ddiotal neu'n beryglus. Un enghraifft o hyn fyddai bod gyrrwr yn taro rhywun ac yn ei ladd, ac er nad oes dim tystiolaeth nad oedd yn gyrru'n ofalus, y canfyddir wedi hynny bod y gyrrwr yn gyrru dros y terfyn yfed a gyrru.
24. Fodd bynnag, mae anfanteision i ystyried bod rhai mathau o ymddygiad yn awtomatig yn gyfystyr â gyrru diofal neu beryglus. Byddai gwneud hyn yn golygu cael gwared ar natur wrthrychol y prawf diofal/perylus. Gallai fod gyrrwr yn cyflawni trosedd gyrru diofal neu beryglus dan yr amgylchiadau hyn, **heb ystyried** pa mor ofalus a chymwys yr oedd yn gyrru mewn gwirionedd. Ac eto, gallai fod safon gyrru'r gyrrwr hwnnw'n llawer uwch na'r safon a ddangosir gan yrwr arall, nad yw'n bodloni'r prawf gyrru diofal neu beryglus. Fel hyn, gallai'r dull hwn arwain at lai o dryloywder a chanlyniadau anfwriadol. Byddai'n broblem arbennig mewn achosion o farwolaeth er enghraifft, pe câi gyrru'r diffynnydd ei ystyried yn ddiotal neu'n beryglus, er nad oedd y modd yr oedd yn gyrru wedi achosi'r farwolaeth mewn unrhyw ffordd.
25. Byddai'n anodd iawn diffinio pa ymddygiad y dylid ystyried ei fod yn gyfystyr â gyrru diofal a pheryglus, a dan ba amgylchiadau.
26. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y trosedd presennol, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, a'r gofyniad dan y canllawiau dedfrydu perthnasol i ystyried, er enghraifft, goryrru neu dystiolaeth o alcohol neu gyffuriau fel ffactorau gwaethgol wrth bennu difrifoldeb trosedd o achosi marwolaeth neu anaf difrifol, ac felly bennu'r ddedfryd briodol, yn rhoi digon o hyblygrwydd i erlynwyr a'r llysoedd. Felly, nid yw'r Llywodraeth wedi'u perswadio bod rheswm i newid hyn.

Defnyddio'r term "diofal" mewn perthynas â throseddau gyrru

27. Mae pobl hefyd wedi awgrymu bod defnyddio'r gair "diofal" mewn perthynas â throseddau gyrru'n bychanu natur y trosedd ac, yn enwedig mewn perthynas â throseddau sy'n arwain at farwolaeth, ei fod yn sarhaus i deuluoedd mewn profedigaeth. Mae nifer o ddiodefwyr a theuluoedd diodefwyr wedi mynegi'r pryder hwn, er eu bod yn

cydnabod bod gyrru diofal yn derm sydd wedi ennill ei blwyf o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol.

28. Er ein bod yn cydnabod y pryder hwn, nid ydym yn meddwl y byddai newid geiriad y ddeddfwriaeth ei hun o gymorth; gallai hynny achosi dryswch ynglŷn â'r prawf gwrthrychol. Fodd bynnag, rydym yn meddwl ei bod yn hanfodol bod pawb sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol – yr heddlu, erlynwyr a'r llysoedd – yn gallu egluro'n well sut y maent yn gwneud eu penderfyniadau ac yn egluro beth yw effaith 'gyrru gwael', ym mha bynnag ffordd, ar ddiodefwr a'u teuluoedd.

Y teimlad bod bwlch yn y gyfraith

Trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal

29. Diffinnir anaf difrifol fel golygu, yng Nghymru a Lloegr, anaf corfforol sy'n gyfystyr â niwed corfforol difrifol (GBH) at ddibenion Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 ac, yn yr Alban, fel anaf corfforol difrifol. Y gosb uchaf am ymosodiad (GBH) dan adran 20 Deddf Ymosodiadau yn Erbyn y Person 1861 neu ymosodiad sy'n achosi niwed corfforol gwirioneddol (ABH) dan adran 47 y Ddeddf yw 5 mlynedd o garchar.
30. Mae dau drosedd gyrru o achosi anaf difrifol. Roedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 yn creu trosedd achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus, â chosb uchaf o 5 mlynedd yn y carchar (adran 1A Deddf Traffig Ffyrdd 1988) ac roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yn creu trosedd achosi anaf difrifol wrth yrru dan waharddiad, â chosb uchaf o 4 mlynedd yn y carchar (adran 3ZD Deddf Traffig Ffyrdd 1988).
31. Mae wedi'i awgrymu bod creu'r troseddau newydd hyn o yrru'n beryglus a gyrru dan waharddiad yn creu teimlad o fwlch yn y gyfraith o ran gyrru diotal sy'n arwain at anaf difrifol. Mae'n bosibl i achosion o'r fath arwain at gyhuddiad o ymosodiad, megis GBH, ond yn gyffredinol mae hynny'n golygu bod angen profi rhywfaint o fwriad i achosi niwed. Mae'n fwy tebygol, felly, y ceir cyhuddiad o yrru'n ddiotal yn yr achosion hyn.
32. Y gosb uchaf ar hyn o bryd am yrru'n ddiotal yw dirwy ddigyfyngiad, ond mewn rhai achosion mae'r gyrru'n gallu achosi niwed sy'n arwain at anaf difrifol iawn a pharhaol. Mae'r anafiadau hyn yn gallu cael effaith ddinistriol ar fywydau dioddefwyr a'u teuluoedd. Felly, yn yr achosion hyn, mae llawer o niwed wedi'i achosi ond mae beusrwydd y gyrrwr yn isel. Pe câi trosedd newydd ei greu, byddai'n rhaid i'r gosb uchaf am y trosedd hwn gydbwyso'r ffactorau hyn ac ystyried y cosbau uchaf am droseddau cysylltiedig eraill.

C1. A ddylid creu trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal?

C2. Os dylid, gan ystyried y cosbau uchaf am y troseddau sy'n bodoli, sef achosi anaf difrifol ac ymosodiad, a fyddai naill ai 2 neu 3 blynedd yn gosb uchaf briodol a chymesur am y trosedd newydd?

Cosbau uchaf

33. Mae amrywiaeth o droseddau a chosbau sy'n gysylltiedig â gyrru, ac maent wedi cael eu haddasu dros y blynyddoedd a rhai newydd wedi'u hychwanegu. Y Senedd sy'n pennu'r gosb uchaf am drosedd a grëir mewn statud, a bydd y gosb hon wedi'i llunio i ystyried yr ymddygiad mwyaf difrifol posibl dan y trosedd hwnnw. Hefyd, rhaid pennu cosbau uchaf yn gysylltiedig â throseddau eraill sydd tua'r un mor ddifrifol er mwyn sicrhau cysondeb.
34. Mae Atodiad A yn amlinellu beth yw'r troseddau gyrru mwyaf difrifol ar hyn o bryd a'r gosb uchaf am bob trosedd.

Rhoi'r gosb uchaf

35. Mewn perthynas â throseddau gyrru, mae rhai pobl wedi dweud bod rhoi'r gosb uchaf yn bryder penodol. Awgrymwyd, os yw troseddwr wedi cael euogfarn o achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, y dylid rhoi'r gosb uchaf o 14 mlynedd o garchar ym mhob achos. Awgrymwyd hefyd, os yw troseddwr wedi achosi mwy nag un farwolaeth o ganlyniad i'w yrru peryglus, y dylid rhoi'r gosb uchaf am bob marwolaeth ac y dylai'r dedfrydau fod yn olynol (h.y. un ar ôl y llall) yn hytrach nag yn gyfredol (h.y. ar yr un pryd).
36. Gan fod cosb uchaf wedi'i phennu i ymdrin â'r ymddygiad mwyaf difrifol dan y trosedd, bydd eisoes yn cynnwys y posibilrwydd o fwy nag un dioddefwr. Mae'n bwysig hefyd cofio, mewn digwyddiad traffig ffyrdd angheuol, bod nifer y dioddefwyr, yn anffodus, yn gallu bod yn fater o siawns. Gallai ddibynnu ar nifer y bobl sydd mewn cerbyd o gwmpas cornel ddall pan fydd gyrrwr peryglus yn gwrthdaro ag ef.
37. Mewn achosion lle mae'r llys yn dedfrydu ar gyfer mwy nag un trosedd, yr egwyddor hirsefydlog yw bod rhaid i gyfanswm y ddedfryd a roddir adlewyrchu'r holl ymddygiad troseddol a bod yn gyfiawn ac yn gymesur o fewn y gosb uchaf am y trosedd. Mae hyn yn wir am droseddau â dedfrydau wedi'u strwythuro'n olynol neu'n gyfredol.
38. Mater i'r llys yw sut i strwythuro dedfrydau. Mae'r llysoedd wedi datgan yn gyson na ddylid rhoi dedfrydau olynol fel rheol am droseddau sy'n deillio o'r un digwyddiad.
39. Wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi, mae'n ofynnol i'r llysoedd ystyried holl amgylchiadau'r trosedd(au) a'r troseddwr ac unrhyw ffactorau lliniarol a gwaethybol, er enghraifft goryrru, defnyddio dyfais symudol â'r llaw, bod o gwmpas defnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed. Os oes mwy nag un dioddefwr, ystyrir hyn, a bydd yn gwaethygu difrifoldeb y trosedd gan olygu ei fod yn haeddu dedfryd hwy. Hefyd, mae'r canllawiau dedfrydu ar gyfer achosi marwolaeth drwy yrru, y mae'n ddyletswydd statudol ar y llysoedd i'w dilyn (oni bai y byddai gwneud hynny yn groes i bennaf les cyfiawnder), yn nodi'n benodol y dylai'r llysoedd ystyried y niwed ychwanegol a achoswyd gan y trosedd os oes mwy nag un dioddefwr.
40. Byddai rhoi'r gosb uchaf statudol ym mhob achos yn cynrychioli newid sylweddol i'r gyfraith droseddol ac yn gwrthdaro â'r safbwynt mewn perthynas â throseddau eraill sy'n arwain at farwolaeth, megis dynladdiad. O gofio ystyried bod y dull dedfrydu a amlinellwyd uchod yn berthnasol i bob trosedd, mae'n anodd cyfiawnhau defnyddio dull gwahanol ar gyfer trosedd penodol neu grŵp penodol o droseddau. Hefyd, byddai rhoi cyfres o ddedfrydau hir olynol ym mhob achos, heb ystyried beusrwydd y troseddwr, yn

wyriad digyfiawnhad oddi wrth y safbwynt presennol ac yn arwain at gyfyngiad difrifol ar allu barnwyr i ddefnyddio eu disgrisiwn i roi dedfryd gyfiawn a chymesur mewn achosion unigol.

41. Felly, nid yw'r Llywodraeth yn cynnig newid y gyfraith i fynnu rhoi'r gosb uchaf.

Y cosbau uchaf am droseddau achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu'n beryglus

42. Ers 2011, mae cyfran uwch o yrwyr sydd wedi achosi marwolaethau drwy yrru'n ddiotal neu'n beryglus wedi cael dedfryd o garchar, cynnydd o 50% (191 o 382 o droseddwy'r a ddedfrydwyd) yn 2011 i 57% (180 o 316 o droseddwy'r a ddedfrydwyd) yn 2015. Mae'r ddedfryd gyfartalog o garchar am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu'n beryglus wedi cynyddu o 41.3 mis yn 2011 i 45.8 mis yn 2015 – cynnydd 4.5 mis.¹

43. Y tri throsedd achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu'n beryglus yw:

- (i) achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal;
- (ii) achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus; ac
- (iii) achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau.

44. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r gosb uchaf am drosedd wedi'i gosod i ystyried yr ymddygiad mwyaf difrifol y gellir ei ddychmygu dan y trosedd hwnnw; ac nid cyflwr meddyliol neu fwriadau'r gyrrwr sy'n pennu beth yw gyrru diotal neu beryglus, ond natur y gyrru.

45. Mae amryw o awgrymiadau wedi'u gwneud ynglŷn â'r cosbau uchaf am y troseddau hyn.

Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal

46. Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal yw 5 mlynedd o garchar. Cafodd 173 o bobl eu dedfrydu yn 2015 a chafodd 46 ohonynt ddedfryd o garchar ar unwaith. Mae nifer y troseddwy'r a ddedfrydwyd am y trosedd hwn wedi gostwng 25% ers 2011 (232 o droseddwy'r), ond mae nifer y troseddwy'r a gafodd ddedfryd o garchar ar unwaith wedi aros yn eithaf cyson dros yr un cyfnod. Gostyngodd hyd cyfartalog dedfrydau o garchar rhwng 2011 (15.3 mis) a 2014 (10.4 mis), ond cynyddodd eto yn 2015 (14.4 mis).

47. Fel y trafodwyd uchod, awgrymwyd y dylid diddymu'r gwahaniaeth rhwng gyrru'n ddiotal a gyrru'n beryglus a chreu un prawf gyrru peryglus yn lle hynny i gynnwys yr ystod lawn o yrru a ystyrir yn beryglus neu'n ddiotal ar hyn o bryd. Byddai hynny'n golygu y byddai'r troseddau achosi marwolaeth, drwy yrru'n beryglus, drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau a drwy yrru'n ddiotal, yn troi'n un trosedd "gyrru gwael". Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr awgrym hwn ond nid ydynt wedi'u perswadio bod rheswm i newid hyn.

48. Mae rhai pobl hefyd wedi dadlau, dan y fframwaith dedfrydu presennol, bod y gwahaniaeth rhwng y gosb uchaf o 14 mlynedd am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau a'r gosb uchaf o 5 mlynedd am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal yn rhy fawr. Mae'r

¹ Mae'n bwysig cofio bod y data yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar droseddau nad ydynt yn digwydd yn aml, sy'n golygu eu bod yn dueddol o amrywio oherwydd niferoedd bach yr achosion.

gwahaniaeth rhwng y cosbau'n golygu bod y penderfyniad i gyhuddo neu euogfarnu am un trosedd yn hytrach na'r llall yn gallu bod yn arwyddocaol o ran y ddedfryd a roddir.

49. Fel y nodwyd eisoes, rhaid i'r gosb uchaf adlewyrchu difrifoldeb y trosedd dan sylw gan ystyried y potensial i achosi niwed a beiusrwydd tebygol y troseddwr. Mewn achosion o achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal mae'r niwed a achoswyd bob amser yn uchel iawn, gan fod rhywun wedi marw, ond mae beiusrwydd y troseddwr yn gymharol isel gan y gallai'r farwolaeth fod wedi digwydd o ganlyniad i ddiffyg sylw am eiliad. Felly, rhaid i unrhyw benderfyniad i gynyddu'r gosb uchaf ystyried y ffactorau hyn ac nid yw'r Llywodraeth yn argyhoeddedig bod rheswm i gynyddu'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal.

Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus

50. Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yw 14 mlynedd o garchar. Cafodd 122 o bobl eu dedfrydu yn 2015 a chafodd 114 ohonynt ddedfryd o garchar ar unwaith. Nid yw'r gyfran a gafodd ddedfryd o garchar wedi newid rhyw lawer rhwng 2011 a 2015; mae wedi amrywio o 96% i 93%. O'r rhai na chawsant ddedfryd o garchar ar unwaith, cafodd y rhan fwyaf ddedfryd ohiriedig, a dim ond llond llaw a gafodd ddedfryd gymunedol, dirwy neu eu rhyddhau'n llwyr dros y 5 mlynedd diwethaf. Cynyddodd hyd cyfartalog dedfrydau o garchar yn gyson rhwng 2011 a 2014 o 48.7 mis i 61.5 mis, ond gostyngodd ychydig bach yn 2015 i 57.1 mis.
51. Awgrymwyd y dylid cynyddu'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes. Byddai hyn yn golygu bod y gosb uchaf am y trosedd yr un fath ag am ddylnladdiad.
52. Byddai cynyddu'r gosb uchaf i garchar am oes yn galluogi'r llysoedd i roi dedfryd o garchar am oes neu am unrhyw gyfnod penodol. Pe bai'r llys yn rhoi dedfryd o garchar am oes, byddai'r troseddwr yn treulio isafswm cyfnod yn y ddalfa (sef y tariff) cyn i'r Bwrdd Parôl ystyried ei ryddhau. Pe câi'r troseddwr ei ryddhau, byddai ganddo drwydded oes. Byddai unrhyw droseddwr a gafodd ddedfryd o gyfnod penodol yn cael ei ryddhau hanner ffordd drwy'r ddedfryd ac yn cael ei oruchwyllo dan drwydded yn y gymuned am weddill y ddedfryd.
53. Dylid nodi nad yw cynyddu cosb uchaf yn rhoi sicrwydd o ddedfrydau hwy, oherwydd bydd barnwyr annibynnol yn dal i wneud penderfyniadau am briodoldeb dedfrydau ac yn gwneud hynny ar gyfer pob achos yng ngoleuni amgylchiadau'r achos unigol.
54. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ynglŷn ag a yw'r gosb uchaf bresennol am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn rhoi digon o bwerau i'r llys i adlewyrchu difrifoldeb y troseddu.

C3. A ydych yn meddwl bod y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn rhoi adlewyrchiad digonol o feiusrwydd yr ymddygiad troseddol, ynteu a ddylid ei chynyddu o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes?

Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau

55. Y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau yw 14 mlynedd o garchar. Cafodd 21 o bobl eu dedfrydu yn 2015 a chafodd 20 ohonynt ddedfryd o garchar ar unwaith. Gostyngodd nifer y troseddwr a gafodd ddedfryd o garchar am y trosedd hwn 43% oddi ar 2011 (35 o droseddwr). Ym mhob blwyddyn rhwng 2011 a 2015, ni chafodd mwy na dau droseddwr ddedfryd heblaw dedfryd o

garchar ar unwaith – cafodd y troseddwy'r hyn naill ai ddedfryd ohiriedig, dedfryd gymunedol neu ddirwy. Ac eithrio cynnydd yn hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar yn 2013, pan oedd yn 61.3 mis, mae hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar wedi aros yn eithaf cyson rhwng 2011 a 2015, gan amrywio rhwng 52.1 a 54.3 mis. Roedd hyd cyfartalog dedfryd o garchar yn 53.5 mis yn 2015.

56. Byddai cynyddu'r gosb uchaf i garchar am oes am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn golygu bod gan y trosedd hwnnw gosb uchaf fwy na throedd achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau. Mae hyn yn arwain at y cwestiwn a ddylid cynyddu'r gosb uchaf am y trosedd achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad hefyd, ynteu a ellir cyfiawnhau'r gwahaniaeth hwnnw gan ei fod yn adlewyrchu gwahaniaeth yn lefel beusrwydd y gyrrwr.
57. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ynglŷn ag a ddylai'r ddau drosedd hyn fod yr un mor ddifrifol â'i gilydd ac os felly, a ddylid adlewyrchu unrhyw newid i gosb uchaf un trosedd mewn newid i gosb uchaf y llall.
58. Eto, dylid nodi nad yw cynyddu cosb uchaf yn rhoi sicrwydd o ddedfrydau hwy, oherwydd bydd barnwyr annibynnol yn dal i wneud penderfyniadau am briodoldeb dedfrydau ac yn gwneud hynny ar gyfer pob achos yng ngoleuni amgylchiadau'r achos unigol.

C4. A ydych yn meddwl y dylai'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau adlewyrchu'r un beusrwydd (ac felly yr un gosb uchaf) ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus?

Gwaharddiadau

Isafswm cyfnod gwahardd os oes marwolaeth wedi digwydd

59. Os yw troseddwr wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd, gall fod gwaharddiad gorfodol yn berthnasol oni bai bod y llys o'r farn bod rhesymau arbennig dros wahardd y troseddwr am gyfnod byrrach, neu beidio â'i wahardd o gwbl. Mae gwaharddiad gorfodol yn ofynnol am amryw o droseddau gyrru. Ni ddylai gwaharddiadau gorfodol bara llai na 12 mis.
60. Ar gyfer rhai troseddwr â hanes gyrru gwael ac ar gyfer rhai troseddau mwy difrifol, gan gynnwys achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, neu achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus, ni ddylai'r gwaharddiad gorfodol bara llai na 2 flynedd (adran 34(4) Deddf Troseddwr Traffig Ffyrdd 1988). Os yw'r troseddwr yn ad-droseddwr a chanddo ail euogfarn neu euogfarn bellach am rai troseddau penodol o fewn cyfnod o 10 mlynedd, ni ddylai'r gwaharddiad bara llai na 3 blynedd (adran 34(3) Deddf Troseddwr Traffig Ffyrdd 1988).
61. Awgrymwyd y dylai fod isafswm cyfnod gwahardd hwy ar gyfer y troseddwr hynny sydd wedi cael euogfarn o unrhyw un o'r troseddau achosi marwolaeth drwy yrru.
62. Mae'r gyfraith yn nodi isafswm cyfnod gwahardd, a chaiff y llys bennu cyfnodau hwy, gan gynnwys gwaharddiadau am oes. Ers mis Ebrill 2015 mae hefyd yn ofynnol drwy statud i lysoedd, wrth roi dedfryd o garchar, ymestyn y gwaharddiad rhag gyrru i ystyried y cyfnod a dreuliyd yn y ddalfa. Cyn hyn, roeddent yn gwneud hynny yn unol â'r canllawiau dedfrydu. Bwriad y newid hwn yw sicrhau nad yw gwaharddiad gyrru'n dod i ben, neu'n troi'n llawer byrrach, oherwydd bod y troseddwr yn y ddalfa.
63. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ynglŷn ag a ddylai fod isafswm cyfnod y gwaharddiad rhag gyrru, ar gyfer pobl a ddyfernir yn euog o droseddau achosi marwolaeth, yn hwy. Byddai'r isafswm cyfnod hwy hwn yn ystyried yn benodol y niwed arbennig a achosir gan y troseddau hyn.
- C5. A ddylid ystyried cynyddu isafswm cyfnod y gwaharddiad i droseddwr a ddyfernir yn euog o unrhyw drosedd achosi marwolaeth drwy yrru, ac os felly, pa mor hir ddylai isafswm y cyfnod fod yn eich tyb chi?**

Materion eraill

64. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu'r ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ystyried nifer o feysydd y gyfraith sy'n ymwneud ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol. Mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod rhai newidiadau i'r gyfraith yn ddiangen neu'n anymarferol, ond maent wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad i geisio barn am y troseddau sy'n ymwneud ag, neu'n gysylltiedig ag, achosi marwolaeth neu anaf difrifol. Os ydych yn anghytuno ag unrhyw un o'n canfyddiadau, eglurwch pam ac eglurwch beth yr ydych yn meddwl y dylid ei wneud yn ychwanegol neu'n wahanol.

C6. A oes unrhyw droseddau gyrru eraill sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol yr ydych yn meddwl y dylid eu newid? Os oes, pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham?

Asesiad o Effaith a Datganiad Cydraddoldeb

I gynorthwyo ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ar wahân o'r effeithiau posibl.

- Asesiad o Effaith: ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/driving-offences-causing-death-or-serious-injury>
- Datganiad Cydraddoldeb: yng ngoleuni ein hymrwymadau dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae hwn yn ystyried effeithiau posibl ein cynigion yn unol â'r nodweddion gwarchoddedig oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r gosodiad cydraddoldeb ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/driving-offences-causing-death-or-serious-injury>

Rydym yn croesawu sylwadau am gywirdeb a maint yr effeithiau a nodwyd. Yn benodol, rydym yn croesawu ymatebion gan bobl sy'n teimlo eu bod yn rhannu un o'r nodweddion gwarchoddedig hyn neu gan grwpiau diddordeb sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Ystyrir yr ymatebion a geir wrth i'r Llywodraeth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen ar ddiwedd cyfnod yr ymgynghoriad.

Holiadur

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ceisio barn am faterion allweddol sy'n ymwneud â'r cosbau sydd ar gael i'r llysoedd ar gyfer y troseddau gyrru mwyaf difrifol. Os nad ydych yn cytuno ag unrhyw un o'n canfyddiadau, eglurwch pam ac eglurwch beth yr ydych yn meddwl y dylid ei wneud yn ychwanegol neu'n wahanol.

- C1. A ddylid creu trosedd newydd o achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiotal?***
- C2. Os dylid, gan ystyried y cosbau uchaf am y troseddau sy'n bodoli, sef achosi anaf difrifol ac ymosodiad, a fyddai naill ai 2 neu 3 blynedd yn gosb uchaf briodol a chymesur am y trosedd newydd?***
- C3. A ydych yn meddwl bod y gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus yn rhoi adlewyrchiad digonol o feusrwydd yr ymddygiad troseddol, ynteu a ddylid ei chynyddu o 14 mlynedd o garchar i garchar am oes?***
- C4. A ydych yn meddwl y dylai'r gosb uchaf am achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau adlewyrchu'r un beusrwydd (ac felly yr un gosb uchaf) ag achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus?***
- C5. A ddylid ystyried cynyddu isafswm cyfnod y gwaharddiad i droseddwyr a ddyfernir yn euog o unrhyw drosedd achosi marwolaeth drwy yrru, ac os felly, pa mor hir ddylai isafswm y cyfnod fod yn eich tyb chi?***
- C6. A oes unrhyw droseddau gyrru eraill sy'n gysylltiedig ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol yr ydych yn meddwl y dylid eu newid? Os oes, pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham?***
- C7. A yw'r datganiad cydraddoldeb yn nodi'n gywir beth fyddai effaith y dewisiadau diwygio arfaethedig yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth fel y bo'n briodol.***

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gdnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Dylech ymateb ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk> erbyn 11.59pm ddydd Mercher 1 Chwefror 2017, neu anfon eich ymateb (hefyd i gyrraedd erbyn dydd Mercher 1 Chwefror 2017) i:

Driving Consultation
Post Point 4.12
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: drivingconsultation@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Mae copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau amgen o'r cyfeiriad hwn.

Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur i grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn mis Mai 2017. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth Act 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech gofio bod y FOIA yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymwneud, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai o gymorth pe gallech egluro wrthym pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, yn ddo'i hun, yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA a dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion ymgynghori'n amlinellu'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid at ddiben datblygu polisiau a deddfwriaeth.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A – Tabl o droseddau traffig ffyrdd a chosbau

Mae'r tabl hwn yn rhestru'r troseddau gyrru difrifol ar hyn o bryd a'r gosb uchaf am bob trosedd. Fe'i darperir fel gwybodaeth gefndir i gynorthwyo ymatebion i'r ymgynghoriad, lle bo'n berthnasol.

Darpariaeth	Trosedd	Modd treial	Cosb uchaf
Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (RTA) adran 1	Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus	Ar dditiad.	14 mlynedd o garchar.
RTA adran 3A	Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau	Ar dditiad.	14 mlynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 3ZC	Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr dan waharddiad	Ar dditiad.	10 mlynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau
RTA adran 2B	Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal (difeddwl)	(a) Yn ddiannod. (b) Ar dditiad.	(a) 12 mis o garchar* (yng Nghymru a Lloegr) neu 6 mis (yn yr Alban) neu uchafswm y ddirwy statudol, neu'r ddau. (b) 5 mlynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 1A	Achosi anaf difrifol drwy yrru'n beryglus	(a) Yn ddiannod. (b) Ar dditiad.	(a) 12 mis o garchar* neu uchafswm y ddirwy statudol neu'r ddau. (b) 5 mlynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 3ZD	Achosi anaf difrifol drwy yrru: gyrwyr dan waharddiad	(a) Yn ddiannod. (b) Ar dditiad.	(a) Ar euogfarn yng Nghymru a Lloegr: 12 mis o garchar* neu ddirwy neu'r ddau. Ar euogfarn yn yr Alban: 12 mis neu uchafswm y ddirwy statudol neu'r ddau. (b) 4 mlynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 3ZB	Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded neu heb yswiriant	(a) Yn ddiannod. (b) Ar dditiad.	(a) 12 mis o garchar* (yng Nghymru a Lloegr) neu 6 mis (yn yr Alban) neu uchafswm y ddirwy statudol, neu'r ddau. (b) 2 flynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.

Darpariaeth	Trosedd	Modd treial	Cosb uchaf
RTA adran 2	Gyrru Peryglus	(a) Yn ddiannod. (b) Ar dditiad.	(a) 6 mis o garchar neu uchafswm y ddirwy statudol neu'r ddau. (b) 2 flynedd o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 4(1)	Gyrru neu geisio gyrru heb fod yn ffit i yrru oherwydd diod neu gyffuriau.	Yn ddiannod.	6 mis o garchar neu ddirwy lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau.
RTA adran 103(1)(b)	Gyrru dan waharddiad	(a) Yn ddiannod, yng Nghymru a Lloegr. (b) Yn ddiannod, yn yr Alban. (c) Ar dditiad, yn yr Alban.	(a) 6 mis o garchar neu ddirwy lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau. (b) 6 mis o garchar neu uchafswm y ddirwy statudol neu'r ddau. (c) 12 mis o garchar neu ddirwy neu'r ddau.
RTA adran 3	Gyrru diofal, a difeddwl	Yn ddiannod.	Dirwy lefel 5 ar y raddfa safonol

* Mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 154(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, dylid darllen y cyfeiriad at 12 mis fel cyfeiriad at 6 mis.

ISBN 978-1-4741-3863-5



9 781474 138635